

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau ac adnoddau ar gyfer cyflwyno ac ymgysylltu ynglŷn â Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

## Arweiniad i ymarferwyr ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

Stopio Cosbi Corfforol
Ending Physical Punishment

# Cynnwys


Cyflwyniad .................... 4

Beth yw'r ddogfen hon? .................... 4

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon? .................... 4

Y broses o ddatblygu'r ddogfen ganllaw hon ac adnoddau cysylltiedig .................... 5

Crynodeb o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 .................... 6

Beth yw Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020? .................... 6

Beth mae Deddf Plant (Cymru) yn ei wneud? .................... 6

Beth sy'n aros yr un fath ar ôl pasio'r Ddeddf Plant? .................... 6

Diogelu a Deddf Plant (Cymru) .................... 7

Sut i gyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc ynglŷn â Deddf Plant (Cymru) .................... 8

Ystyriaethau allweddol ar gyfer hwyluso sesiynau ar Ddeddf Plant (Cymru) .................... 8

Sut i ddatblygu adnoddau ar Ddeddf Plant (Cymru) gyda phlant a phobl ifanc .................... 9

Adnoddau y gellir eu haddasu a'u defnyddio gyda phlant a phobl ifanc .................... 12

Poster .................... 12

Fideo .................... 13

Enghraifft o gynllun sesiwn .................... 13

Trafodaeth .................... 17

Naratifau .................... 18

Naratif 1 (2 i 3 yw'r oedran a awgrymir) .................... 19

Naratif 2 (4 i 7 yw'r oedran a awgrymir) .................... 20

Plant yng Nghymru .................... 22

Rhestr adnoddau .................... 23

Adnoddau i'ch helpu i gyfathrebu'n gyffredinol ar hawliau plant .................... 23

Adnoddau'n benodol ar gosbi corfforol .................... 25

Adnoddau i helpu gyda diogelu .................... 26

# Cynnwys


Adnoddau i helpu i ymgysylltu â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol ..... 26

Rhaglenni perthnasol eraill ..... 26

Atodiad un: Gwybodaeth a ffurflenni caniatâd ar gyfer plant a phobl ifanc ..... 27

Atodiad 1A: Taflen wybodaeth ..... 27

Atodiad 1b: Ffurflen ganiatâd ..... 28

Atodiad dau: Ffurflen optio allan i rieni/gofalwyr ..... 29

Atodiad tri: Ffurflenni adborth ar gyfer plant a phobl ifanc ..... 31

Atodiad pedwar: Rhifau ffôn llinellau cymorth a gwefannau ar gyfer plant a phobl ifanc ..... 32




# Cyflwyniad

## Beth yw'r ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad a gwybodaeth am Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth a chyfathrebu â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Cyfeirir at y Ddeddf hon, at ddibenion y ddogfen hon, fel "Deddf Plant (Cymru)". Ni ddylid drysu rhwng y Ddeddf hon a Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 na Deddf Plant a Theuluoedd 2014. Fe wnaeth y Ddeddf hon ddileu'r amddiffyniad cosb resymol, sy'n golygu na all neb gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, gan gynnwys yn y cartref.

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen hon?

Gwnaed y ddogfen ganllaw hon ar gyfer pob **ymarferydd** a fydd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynglŷn â Deddf Plant (Cymru). Gallai hyn fod drwy sesiynau ffurfiol sy'n canolbwyntio ar beth yw'r Ddeddf a beth mae'n ei olygu, neu drwy sgyrsiau anffurfiol gyda phlant sy'n dymuno trafod y mater gydag **ymarferwyr**. Yn y ddogfen hon, gallai 'sesiwn' gyfeirio at wers yn yr ysgol, sesiwn mewn grŵp ieuenctid neu weithgaredd 1:1 gyda pherson ifanc agored i niwed. Rydym felly'n bwriadu i weithwyr ieuenctid, swyddogion cyfranogi a gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal ag athrawon a staff eraill mewn ysgolion, elwa o'r ddogfen ganllaw hon.

**Lluniwyd y ddogfen ganllaw hon fel rhan o becyn o adnoddau ar Ddeddf Plant (Cymru). Hyfforddiant i ymarferwyr yw rhan o'r pecyn hwn; mae'n cynnwys gwahanol agweddau ar gyflwyno ac ymgysylltu ynglŷn â'r Ddeddf gyda phlant a phobl ifanc. Gallwch weld yr hyfforddiant hwn a'i gwblhau (yma).**



## Y broses o ddatblygu'r ddogfen ganllaw hon ac adnoddau cysylltiedig

Bu staff Plant yng Nghymru yn gweithio gydag **ymarferwyr** a phlant a phobl ifanc i ddatblygu'r adnoddau hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Fe wnaethom gynnal sesiynau gyda phlant a phobl ifanc o bob oed (7-11, 11-18) gan ofyn iddyn nhw am y ffyrdd gorau o egluro'r Ddeddf wrth blant a phobl ifanc.
- Ochr yn ochr â hyn, bu grŵp cynghori proffesiynol yn trafod ffyrdd amrywiol o ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.
- Dosbarthwyd arolwg i grŵp ehangach o **ymarferwyr**
- **Bu ymarferwyr** yn rhoi cyngor am y cynllun creu adnoddau.
- Rhannwyd fersiwn ddrafft o'r ddogfen hon i gasglu adborth.



# Crynodeb o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

## Beth yw Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020?

Fe wnaeth Deddf Plant (Cymru) 2020 ddileu amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu na all neb gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, gan gynnwys yn y cartref. Daeth y Ddeddf i rym ar yr 21ain Mawrth 2022.

## Beth mae Deddf Plant (Cymru) yn ei wneud?

Fe wnaeth Deddf Plant (Cymru) roi eglurder i blant, rhieni ac **ymarferwyr**, gan ddileu unrhyw ddryswch posibl ynglŷn â'r hyn sy'n lefel dderbyniol o gosb. Mae'r Ddeddf yn berthnasol i bob plentyn dan 18 oed yng Nghymru. Mae wedi dileu bwlch cyfreithiol – ni ellir defnyddio amddiffyniad cosb resymol mwyach ar gyfer unrhyw gosb gorfforol sy'n digwydd yn y cartref neu mewn lleoliadau na chânt eu rheoleiddio. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i **ymarferwyr** roi cyngor clir a diamwys – mae unrhyw lefel o gosb gorfforol bellach yn anghyfreithlon yng Nghymru. Er mai'r 'gwaharddiad ar smacio' yw'r llysenw ar y Ddeddf hon, fe all cosb gorfforol ddigwydd ar sawl ffurf fel taro, slapio ac ysgwyd.

Nod y Ddeddf yw amddiffyn hawliau plant ac mae ganddi gysylltiadau clir ac uniongyrchol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Erthygl 19, sy'n canolbwyntio ar yr hawl i gael amddiffyniad rhag trais o bob math, sydd fwyaf perthnasol i'r Ddeddf. Mae rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar gael yn yr adnoddau a restrir ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Beth sy'n aros yr un fath ar ôl pasio'r Ddeddf Plant?

Nid yw Deddf Plant (Cymru) yn creu trosedd newydd, yr oll a wna yw dileu'r amddiffyniad cosb resymol. Nid yw'r Ddeddf yn atal rhieni rhag disgyblu eu plant, yr oll a wna yw pwysleisio nad yw cosbi corfforol yn dderbyniol ac felly y dylai rhieni ddefnyddio ffyrdd eraill o ddisgyblu gyda'u plant.

Nid yw'r Ddeddf ychwaith yn atal oedolion rhag gweithredu'n gorfforol i atal plant rhag cael eu niweidio ac i'w helpu gyda gweithgareddau dydd i ddydd fel gwisgo neu hylendid a chadw'n lân.

# Diogelu a Deddf Plant (Cymru)

Un elfen allweddol i bob **ymarferydd** yw nad yw'r Ddeddf yn creu trosedd newydd, dim ond yn atal amddiffyniad cosb resymol rhag cael ei ddefnyddio. Mae gan blant yn awr yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiadau ag oedolion. Nid yw Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi newid, fodd bynnag, fel rhan o Ganllaw Ymarfer Cymru Gyfan, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllaw ymarfer manwl sy'n egluro sut mae Deddf Plant (Cymru) yn cyd-fynd â'r Gweithdrefnau Diogelu presennol. Mae'r ddogfen hon ar gael yma: https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p11/

Dylai ymarferwyr ddilyn y polisi diogelu ar gyfer y lleoliad lle maent yn darparu a thrafod unrhyw bryderon am blentyn gyda'r rheolwr a/neu'r Arweinydd/ Unigolyn Diogelu Dynodedig **(DSP)**. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl cysylltu â'r unigolyn hwn am unrhyw reswm, dylai'r ymarferydd roi gwybod yn uniongyrchol i Wasanaethau Cymdeithasol Plant eu hawdurdod lleol am eu pryderon. Os yw plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, dylai gysylltu â'r Heddlu.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, o ganlyniad i'r Ddeddf, y gallai nifer fach o rieni gael eu cyhuddo o droseddu, neu gael eu herlyn am droseddu, mewn amgylchiadau lle na fyddai hynny wedi digwydd o'r blaen. Fodd bynnag, nid tynnu pobl i'r system cyfiawnder troseddol yw'r bwriad ond annog mwy a mwy o bobl i roi'r gorau i ddefnyddio cosb gorfforol. Yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, mewn achosion lle mae'r heddlu'n credu ei bod yn briodol delio â'r mater y tu allan i'r llys, mae yna ddewis i gynnig cymorth i helpu unigolion i osgoi aildroseddu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut bydd yr heddlu'n delio ag adroddiadau mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru), gweler y ddogfen hon: https://www.llyw.cymru/grant-cymorth-rhianta-ar-gyfer-datrysiadau-y-tu-allan-ir-llys-canllawiau

Os ydych chi'n teimlo bod rhieni/gofalwyr y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw angen rhagor o gyngor ar y mater, gallech rannu'r daflen 'gwybodaeth i rieni' a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Ddeddf – mae ar gael yma https://www.llyw.cymru/stopio-cosbi-corfforol-yng-nghymru-gwybodaeth-i-rieni. Mae ar gael mewn amrywiol ieithoedd cymunedol yn ogystal ag yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Sut i gyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc ynglŷn â Deddf Plant (Cymru)

## Ystyriaethau allweddol ar gyfer hwyluso sesiynau ar Ddeddf Plant (Cymru)

- Ystyriwch roi gwybod i'r tîm staff eich bod yn bwriadu trafod Deddf Plant (Cymru), hyd yn oed os yw hynny mewn ffordd anffurfiol oherwydd fe allai arwain at ragor o drafod ymysg y plant a'r bobl ifanc.
- Dylai'r trafodaethau hyn ddigwydd mewn lleoliad diogel a phriodol. Sicrhewch fod gennych gynllun ar waith ar gyfer datgeliadau diogelu gan blant a phobl ifanc ar ôl trafod Deddf Plant (Cymru) – gweler yr adran flaenorol.
- Cysylltwch eich trafodaethau ar Ddeddf Plant (Cymru) â CCUHP ac ag adnoddau eraill am hyn.
- Byddwch yn ymwybodol y gallai trafod Deddf Plant (Cymru) arwain at drafodaethau mwy anffurfiol gyda rhieni. Mae rhagor o adnoddau yn y rhestr adnoddau i chi eu rhoi i rieni neu gyfeirio rhieni atynt.
- Byddwch yn barod i gael sgyrsiau mwy anffurfiol gyda'r plant a'r bobl ifanc ar ôl y sesiwn.
- Ystyriwch lle mae eich sesiwn yn ffitio i'r Cwricwlwm i Gymru (os yw'n berthnasol).
- Ystyriwch gefndir y plant rydych chi'n gweithio gyda nhw a'r potensial i'r rhai sydd yn y sesiwn fod wedi bod drwy drawma.
- Sicrhewch fod y rheini sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn eich sesiwn yn cael eu cynnwys a defnyddiwch adnoddau wedi'u haddasu os oes angen – - **Gweler tudalen 18 am adnoddau i'ch helpu i ymgysylltu â phlant ag ADY**
- Defnyddiwch y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol fel sail drwy gydol y gwaith o gynllunio a chyflwyno sesiynau ac o gasglu adborth.
- Ar gyfer plant yn y blynyddoedd cynnar a / neu rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, efallai yr hoffech gyflwyno'r mater drwy gyfrwng gwahanol fel llyfr, drama neu gyda phypedau. Mae rhestr o lyfrau ar Hawliau Plant ar gael yn ein rhestr adnoddau.
- **PEIDIWCH** â rhannu unrhyw rai o'r adnoddau amgaeedig yn gyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol – mae perygl i blant a phobl ifanc ddod ar draws yr adnodd heb ddim cyd-destun.
- Mae'n bwysig deall a gweithredu dull sy'n ystyriol o drawma – gweler Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma https://traumaframeworkcymru.com/cy/

# Sut i ddatblygu adnoddau ar Ddeddf Plant (Cymru) gyda phlant a phobl ifanc

Isod ceir fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth a chreu adnoddau gyda Phlant a Phobl Ifanc, dylech ei addasu yn ôl yr angen ar gyfer eich lleoliad a chadw'r ystyriaethau allweddol uchod mewn cof. O fewn y canllawiau a roddir, gadewir y gwaith o gyflwyno’r sesiynau hyn i ddisgresiwn yr ymarferydd. Gellir defnyddio neu addasu’r adnoddau ar dudalennau 9-14 y ddogfen hon ac yn yr atodiadau i’ch helpu gyda’r sesiynau hyn.

**Cyn cynnal y sesiynau**

Fel hwylusydd, dylech ystyried:

- Faint o amser fydd yn cael ei neilltuo ar gyfer y prosiect hwn?
- Pa fathau o adnoddau ydych chi’n meddwl y bydd y plant a’r bobl ifanc yn eu creu, ar sail eu cefndiroedd, eu hanghenion a’u diddordebau?
- Os oes angen, meddyliwch sut bydd eich sesiwn yn cyd-fynd â’r Cwricwlwm i Gymru.
- Beth yw dealltwriaeth bresennol y grŵp o hawliau plant yn gyffredinol yn ogystal ag o CCUHP? Efallai yr hoffech ystyried cael gwers ar CCUHP ac Erthygl 19 yn benodol cyn cynnal sesiwn ar Ddeddf Plant (Cymru).
- A fyddwch chi’n rannu unrhyw adnoddau y mae’r plant a’r bobl ifanc yn eu creu? Os felly, sut? A ydych chi’n bwriadu eu rhannu â’r grŵp yn unig, ynteu a fyddwch yn eu rhannu’n fwy eang?
- A oes lle diogel i blant a phobl ifanc fynd os ydyn nhw’n gofidio neu’n bryderus am destun y sesiwn?
- Rhoi gwybod i aelodau eraill o staff eich bod yn cynnal y sesiwn, fel eu bod yn barod am ddatgeliadau. Efallai y byddwch am rannu posteri neu daflenni ffeithiau Llywodraeth Cymru ar gyfer **rhai mewn amrywiol weithluoedd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i athrawon, gweithwyr chwarae, a gweithwyr cymdeithasol**. Mae’r rhain i’w gweld yma: .
- Sicrhau bod gennych gynllun ar waith ar gyfer beth i'w wneud os cewch ddatgeliad yn y sesiwn – er enghraifft rhoi gwybod i’r Unigolyn Diogelu Dynodedig pryd rydych chi’n cynnal y sesiwn, neu sicrhau bod gennych aelod arall o staff yn bresennol. Efallai y bydd y mesurau diogelu rydych chi’n eu rhoi ar waith yn wahanol i bob lleoliad, ond sicrhewch eich bod wedi ystyried y posibilrwydd o gael datgeliadau yn ystod a / neu ar ôl y sesiwn.

**Yn ystod y sesiynau**

Fel hwylusydd, dylech ystyried

- Pa wybodaeth sydd gan y plant am CCUHP a Hawliau Plant ar hyn o bryd. Os oes ganddynt lefel is o wybodaeth, efallai yr hoffech ddechrau'r sesiwn drwy drafod CCUHP ac Erthygl 19 a sut mae Deddf Plant (Cymru) yn cyd-fynd ag agwedd gyffredinol Llywodraeth Cymru at hawliau plant. Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar hawliau plant ar gael yn y rhestr adnoddau.

- Dechrau'r sesiwn drwy egluro beth yw Deddf Plant (Cymru), gwreiddio hyn mewn persbectif hawliau plant a rhoi syniadau ar gyfer pa fath o adnoddau y gallai'r plant a'r bobl ifanc eu creu.

- Sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw yn gwybod ac yn deall paramedrau'r sesiwn, er enghraifft sut gaiff yr adnoddau a gynhyrchir eu defnyddio ar ôl y sesiwn.

- Hyblygrwydd o ran yr hyn y gall plant a phobl ifanc ei greu oherwydd fe allent gynnig syniadau nad ydych chi wedi'u hystyried. Annog y plant a'r bobl ifanc i fynegi eu hunain a'u creadigrwydd mewn ffyrdd hwyliog a chyffrous, gan ddelio â'u disgwyliadau ar yr un pryd.

- Annog y plant a'r bobl ifanc i greu adnoddau sy'n canolbwyntio ar yr agwedd gadarnhaol ar hawliau plant a sut mae'r rhain yn cael eu gwarchod drwy Ddeddf Plant (Cymru).

- Dweud yn glir wrth y plant a'r bobl ifanc am y cymorth diogelu sydd ar gael yn ystod y sesiwn ac wedyn.

- A hoffech chi gael adborth gan y plant a'r bobl ifanc. Mae Atodiad **1b** yn enghraifft o ffurflen i'w defnyddio gyda phlant iau. Mewn sesiynau gyda phlant hŷn a phobl ifanc, gellid defnyddio 'blwch postio' i roi adborth yn ddienw.

- Defnyddio blwch pryderon i ganiatáu i'r plant a'r bobl ifanc fynegi unrhyw bryderon.



**Yn dilyn y sesiynau**

Fel hwylusydd, dylech ystyried:

- Rhannu adnoddau'r plant a'r bobl ifanc y tu allan i'r sesiwn os mai dyma y cytunwyd arno.
- Gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth rydych chi'n ei harddangos y tu allan i'r sesiwn yn glir, yn hygyrch ac yn ddealladwy – efallai y bydd rhaid i chi addasu'r adnoddau mae'r plant a'r bobl ifanc wedi'u creu i ddarparu ar gyfer hyn.
- Paratoi ar gyfer lefel uwch o ddatgeliadau gan blant a phobl ifanc ar ôl y sesiwn ac ar ôl rhannu adnoddau. Fe allech hefyd gael sgyrsiau mwy anffurfiol gyda rhieni / gofalwyr ar ôl y sesiwn.



# Adnoddau y gellir eu haddasu a'u defnyddio gyda phlant a phobl ifanc

I gefnogi gweithwyr proffesiynol i gyfathrebu ynglŷn â Deddf Plant (Cymru), mae poster, fideo, cynllun sesiwn enghreifftiol, templed trafod a dau naratif wedi cael eu creu. Rydym wedi ychwanegu ystod oedran awgrymedig i bob un o'r adnoddau, ond nid yw hyn yn gwbl lym, a dylech ddefnyddio unrhyw adnodd a fydd, yn eich barn chi, yn helpu'r plant a'r bobl ifanc sydd yn eich lleoliad chi. Er enghraifft, gallai fod yn addas i chi ddefnyddio'r naratif gyda phlant hŷn na 7 oed oherwydd eu hanghenion neu eu cefndiroedd.  Wrth ddefnyddio'r adnoddau hyn, cofiwch y prif ystyriaethau ar dudalen 7. Gallwch ddefnyddio'r adnoddau hyn fel cynlluniau ar gyfer sesiynau, fel arweiniad ar gyfer datblygu eich cynllun eich hun, fel offer codi ymwybyddiaeth, neu fel cefnogaeth yn ystod trafodaethau anffurfiol.

## Poster




(7+ yw'r oedran a awgrymir)

Datblygwyd y poster yn seiliedig ar syniadau a gynhyrchwyd gan blant a phobl ifanc, mae'r poster i'w weld a'i argraffu yma. Mae blwch ar ddiwedd y poster lle gallwch roi gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'ch lleoliad. Awgrymir yn gryf bod **unigolyn a enwir** fel eich Unigolyn Diogelu Dynodedig yn cael ei ychwanegu yn y blwch hwn. Hefyd, neu yn hytrach, fe ellid cynnwys rhif ffôn neu wefan, fel Childline. Dangoswch y poster lle bynnag rydych chi'n meddwl fyddai orau yn eich lleoliad chi – ystyriwch lle byddai'n dal sylw'r plant a'r bobl ifanc orau.

## Fideo

(7+ yw'r oedran a awgrymir)

https://youtu.be/E45Pvx8wqww

Datblygwyd y fideo hwn ar sail syniadau a gynhyrchwyd gan wirfoddolwyr Cymru Ifanc. Mae'r fideo ar gael yma. Mae'n fideo byr sy'n defnyddio fframwaith cadarnhaol i drafod sut mae'r Ddeddf Plant yn cydblethu â hawliau plant. Byddai dangos y fideo i blant a phobl ifanc fel rhan o sesiwn ar Hawliau Plant neu bwnc cysylltiedig arall yn caniatáu fframwaith o ddealltwriaeth cyn gwylio'r fideo.

## Enghraifft o gynllun sesiwn

(7+ yw'r oedran a awgrymir)

Dyma enghraifft o gynllun sesiwn; dylech gynllunio yn ôl y lleoliad ac anghenion y plant a'r bobl ifanc yn y sesiwn.

| Amser | Crynodeb o'r Gweithgaredd | Manylion y gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| 0-10 | Gweithgaredd Cynhesu | Rhannwch luniau o'r Prif Weinidog, y Gweinidog Addysg, y Comisiynydd Plant yn gymysg â sêr chwaraeon, sêr cerddoriaeth, dylanwadwyr.<br>Trafodwch pwy maen nhw'n ei adnabod, trafodwch pwy sy'n "dylanwadu" ar blant a phobl ifanc. Llywiwch tuag at ddweud bod gwleidyddion (ac eraill) yn dylanwadu ar eu bywydau nhw drwy bolisi a deddfau. | Lluniau o Weinidogion, llunwyr polisïau a'r "dylanwadau" presennol<br>**Mae dolenni at adnoddau Senedd Cymru i chi eu defnyddio i'w cael ar dudalen 18.** |
| 10-20 | Crynhoi CCUHP a Chyflwyno'r Ddeddf Plant<br><br>* | Esboniwch weithdrefnau diogelu yn ôl yr angen.<br>Rhannwch/dangoswch [convention-rights-child-text-child-friendly-version.pdf (unicef.org)] (neu debyg) gan ganolbwyntio ar Erthygl 19.<br>Dywedwch fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddf (Deddf Plant (Cymru) 2020) i amddiffyn plant rhag trais gan gefnogi'r hawl hon. | |
| 20-25 | Ennyn syniadau | Mewn grwpiau bach, bydd y plant yn trafod ffyrdd o gyfleu hyn wrth eu cyfoedion. | |
| 25-35 | Adborth a chyfarwyddyd | Casglwch syniadau gan grwpiau, rhannwch y Poster a'r Fideo yn y pecyn adnoddau.<br>Penderfynwch gyda'r grwpiau pa gyfryngau maen nhw'n mynd i'w defnyddio i gyfleu'r neges. Gallai pawb wneud yr un fath neu gallai grwpiau wneud pethau gwahanol.<br>Gallai syniadau gynnwys poster, stori fideo, adroddiad newyddion, cerdd, cân, rap, cyfweliad ac ati.<br>Pwysleisiwch y dylai'r neges fod yn gadarnhaol a chanolbwyntio ar y weithred a'r hawliau nid ar gosbi corfforol. | |
| 35-65 | Gwneud adnoddau | Mewn grwpiau, mae'r plant a'r bobl ifanc yn creu adnoddau. | Amrywiol, yn dibynnu ar y gweithgareddau a ddewisir, yn debygol o gynnwys deunyddiau celf, papur mawr, dyfeisiau recordio (iPads neu debyg) |
| 65-75 | Sesiwn gyda phawb | Adborth gan grwpiau, rhannu adnoddau.<br>Cyfeiriwch at adnoddau i gael rhagor o wybodaeth a chymorth yn ôl yr angen. | |

*** Os oes angen mwy o fewnbwn ar y Ddeddf ei hun, gellid cynnal y sesiwn hon cyn y brif sesiwn**

**7+ yw'r oedran a awgrymir**

| Amser | Crynodeb o'r Gweithgaredd | Manylion y gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| 0-10 | Beth yw cosbi corfforol | Rhowch enghreifftiau o "ymddygiad gwael" / torri rheolau a chosbau corfforol a awgrymir mewn gwahanol leoliadau fel ysgol, grwp ieuenctid, system cyfiawnder troseddol e.e. os bydd disgybl yn taflu bwyd yn yr ysgol a ddylai gael y gansen? Fydden nhw'n cael y gansen? Dewch i'r casgliad eu bod yn fwy tebygol o gael eu cosbi'n gorfforol yn y cartref nag mewn lleoliadau eraill (fel a oedd eisoes yn erbyn y gyfraith mewn lleoliadau eraill). | https://www.llyw.cymru/stopio-cosbi-corfforol-i-blant defnyddiwch y taflenni ffeithiau yma fel sy'n berthnasol i'ch lleoliad |
| 10-15 | Enghreifftiau o gosbi corfforol | Gofynnwch am enghreifftiau o gosbi corfforol – trafodwch a ydynt yn dod o dan y Ddeddf. Pwysleisiwch y gwahaniaeth rhwng cosbi corfforol a disgyblu a'r gwahaniaeth rhwng cosbi corfforol i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, er enghraifft atal plentyn rhag rhedeg i'r ffordd. | |
| 15-20 | I bwy mae'n berthnasol | Mewn grwpiau bach / parau, gofynnwch i'r bobl ifanc restru pa grwpiau o oedolion y mae'r Ddeddf yn berthnasol iddynt. Casglwch yr ymatebion a thrafod.<br>Trafodwch fod cosbi corfforol wedi bod yn anghyfreithlon mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi maeth Awdurdodau Lleol, a lleoliadau gofal plant a bod hyn bellach wedi cael ei ymestyn i'r cartref.<br>Arweiniwch at gasgliad sy'n berthnasol i bawb (gan gynnwys ymwelwyr â Chymru) | |
| 20-25 | Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn cosbi plentyn yn gorfforol? | Dywedwch os bydd rhywun yn cosbi plentyn yn gorfforol y bydd yn torri'r gyfraith:<br>Gofynnwch i'r plant a'r bobl ifanc beth maen nhw'n meddwl allai ddigwydd os bydd rhiant yn smacio plentyn (ac yn cael ei riportio) gan roi'r dewisiadau canlynol iddynt:<br>• Cael ei arestio a'i gyhuddo o ymosodiad<br>• Cael cofnod troseddol<br>• Cael cyngor a chefnogaeth ar ffyrdd o ddelio ag ymddygiad plant a sut i osgoi sefyllfa o'r fath rhag digwydd eto.<br>Trafodwch yr atebion gan egluro mai'r nod yw atal a bod cymorth a chyngor ar gael i rieni ac oedolion eraill sy'n teimlo y byddent yn elwa o hynny.Eglurwch mai'r dewis cyntaf a'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw rhoi cyngor a chefnogaeth. | https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/stopio-cosbi-corfforol-gwybodaeth-i-rieni.pdf<br>Defnyddiwch hwn fel enghraifft o wybodaeth y gellir ei rhoi i bob rhiant. Os hoffai rhieni gael mwy o gefnogaeth, gallant ddod o hyd i hyn drwy ffyrdd eraill. |

## Taflen ar gyfer y sesiwn lawn

| A yw'r Ddeddf yn cynnwys y camau hyn?<br>Ydy / Nac ydy | |
|---|---|
| Mae gwarchodwr yn slapio plentyn a oedd wedi slapio person ifanc arall i ddangos iddo ei fod yn brifo ac na ddylai wneud hynny. | |
| Mae mam yn smacio plentyn am dorri ffenestr gyda phêl-droed | |
| Mae plentyn yn chwarae o gwmpas yn y gegin, ac mae ei riant yn gwthio ei law i ffwrdd oddi wrth stêm sy'n dod o'r tegell. | |
| Mae tad-cu o Loegr sydd ar wyliau yng Nghymru yn ysgwyd ei ŵyr am iddo ollwng hufen iâ. | |
| Mae rhiant yn tynnu plentyn yn ôl gan iddo ddechrau croesi'r ffordd pan oedd ceir yn dod. | |
| Mae tad yn gwthio ac yn tynnu person ifanc i ystafell wely'r person ifanc er mwyn iddo aros yno fel cosb oherwydd iddo gymryd arian o waled y tad | |

## Trafodaeth

(14+ yw'r oedran a awgrymir)

Dyma enghraifft o gyfres o gwestiynau ac atebion y gallwch eu defnyddio fel sail i gynllun sesiwn gyda phlant hŷn; dylech gynllunio yn ôl y lleoliad ac yn ôl anghenion y plant a'r bobl ifanc yn y sesiwn.

Sgript / cwestiynau enghreifftiol

- **Beth yw cosb gorfforol?** (Gall olygu smacio, taro, slapio ac ysgwyd. Ond mae mathau eraill hefyd.)
- **Ydych chi'n meddwl y dylid caniatáu cosbi corfforol?**
- **Ydych chi'n gwybod beth wnaeth Deddf Plant (Cymru) 2020?** (Dywedai wrth bawb na all neb gosbi plant yn gorfforol mwyach, gan gynnwys yn y cartref)
- **Yn eich barn chi, pa hawliau sydd gennych fel plentyn?** (Mae gennych amrywiaeth o hawliau o dan CCUHP)
- **Sut mae atal cosbi corfforol yn berthnasol i'ch hawliau chi?** (Erthygl 19 CCUHP)
- **A ganiateir unrhyw fath o gosb gorfforol yng Nghymru erbyn hyn?** (Mae yna sawl math o gosb gorfforol. Ni chaniateir dim un ohonynt)
- **Ble pasiwyd y Ddeddf hon?** (Cyflwynwyd y gyfraith gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn golygu ei bod yn berthnasol i Gymru, ond nid i Loegr. Mae rheolau tebyg i'w cael mewn llefydd fel yr Alban a Seland Newydd)
- **Pam mae'r newid hwn wedi digwydd?** (Dydy cosb gorfforol ddim yn dda i chi. Mae'r newid hwn yn ymwneud â gwneud yn siŵr eich bod yn ddiogel ac yn hapus a'ch bod yn gallu ymarfer eich hawliau. Mae'r rhan fwyaf o bobl bellach yn cytuno â'r newid hwn.)
- **Gyda phwy allwch chi siarad am hyn?** (Os ydych chi'n poeni, mae siarad yn beth da. Gallwch chi siarad ag oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo, fel [enw'r Unigolyn Diogelu Dynodedig neu rywun cyfatebol]. Neu gallech siarad â'ch rhiant, eich gofalwr neu gyda rywun yn eich teulu. Neu gallwch chi ffonio Childline yn ddienw ar 0800 1111)

## Naratifau

Awgrymodd gweithwyr proffesiynol y buom yn siarad â nhw yn y grŵp cynghori y byddai naratifau sy'n archwilio'r mater yn ddefnyddiol ar gyfer egluro'r Ddeddf wrth blant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a/neu blant ag ADY. Gellir mynegi’r naratifau isod fel y dymunwch, boed hynny drwy ddarllen y stori yn y ffordd draddodiadol, drwy ddefnyddio pypedau neu drwy fod y plant yn chwarae rôl.

**I ategu'r naratifau isod, gallai ymarferwyr ddefnyddio stori gyfarwydd lle ceir enghraifft "glir" o reolau'n cael eu torri. Mae Elen Benfelen a’r Tair Arth yn enghraifft dda o hyn.**

**Ar ôl darllen / gwylio, dechreuwch drafod y syniad o Elen Benfelen yn torri’r rheolau, gofynnwch i’r plant beth maen nhw’n feddwl. Beth sy'n digwydd pan fydd rhywun yn torri'r rheolau? Cymerwch restr o syniadau. Efallai y bydd rhai plant yn defnyddio’r geiriau canlyniadau/cosbau. Gallai hyn wedyn arwain at siarad am ganlyniadau gartref. Beth sy'n digwydd os ydych chi’n torri’r rheolau yn yr ysgol? Gartref? Dywedwch wrth y plant nad yw canlyniadau sy’n niweidio neu’n brifo plant byth yn iawn. Yng Nghymru, mae rheol/cyfraith newydd sy’n dweud y dylai oedolion gadw plant yn ddiogel.**



## Naratif 1 (2 i 3 yw'r oedran a awgrymir)

*Yn y stori hon, gallai Sam fod yn byped, yn degan neu'n llun ar y sgrin.*

Helo bawb! Dyma'r Prif Weinidog yng Nghymru [Dangoswch lun]. Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar ran pawb yng Nghymru ac mae am i blant fod yn hapus ac yn ddiogel pan fyddant gartref (Dangoswch lun o dŷ). Mae gan bob un ohonoch yr hawl hon. Dywedwch helo wrth y Prif Weinidog!

Pwy sy'n gofalu amdanoch chi gartref? ***[Gofynnwch am awgrymiadau]***

Da! Pan fyddwch chi gartref, [ailadroddwch beth ddywedodd y plant] sy'n gofalu amdanoch. Felly, mae'r Prif Weinidog yn dweud bod oedolion yn gwneud yn siŵr bod plant yn teimlo'n ddiogel pan fyddan nhw gartref. Mae'n dweud na ddylai oedolion gyffwrdd y plant maen nhw'n gofalu amdanyn nhw mewn ffordd sy'n eu brifo.

A ydyn ni'n meddwl bod hyn yn syniad da? ***(Gofynnwch am awgrymiadau)***

Da! Mae'n bwysig bod pawb yn ddiogel. Mae'r Prif Weinidog wedi dod â ffrind gydag nhw. Ei enw yw Sam. Dywedwch helo wrth Sam ***(canwch gân helo)***

Mae Sam yn flin ***(meimwch Sam yn bod yn flin, dangoswch lun o wyneb blin)***

Gyda phwy allwn ni siarad pan fyddwn ni'n ofidus? ***(Gofynnwch am awgrymiadau)***

Gallwch siarad gyda fi, athro neu athrawes arall, neu gyda [enw – awgrymu Unigolyn Diogelu Dynodedig].

Beth ydyn ni'n feddwl sydd wedi digwydd i Sam? Pam mae'n ofidus? ***(Gofynnwch am awgrymiadau)***

Beth sydd wedi digwydd i Sam? ***(Gofynnwch am awgrymiadau)*** O na! Mae Sam wedi torri plât! ***(Meimiwch sŵn malu)***

Mae Sam gartref. Pwy ydyn ni'n meddwl sydd gydag ef? ***(Gwrandewch ar yr awgrymiadau)***

Mae (ailadroddwch syniadau'r plant e.e. mam, dad ac ati) wedi'i weld! Maen nhw'n mynd â'r plât ac yn helpu Sam i anadlu'n ddwfn. ***(Ymarferwch anadlu'n ddwfn)*** *[Mae'r oedolyn] yn dawel hefyd]*

Sut ydych chi'n meddwl mae Sam yn teimlo nawr? ***(Gwrandewch ar syniadau'r plant)*** Mae'n teimlo'n well nawr. Mae'r [oedolyn] yn ddiogel ac yn gofalu amdano. Maent yn dyner gydag ef.

Gadewch i ni ganu i ffarwelio â Sam. ***(Canwch gân ffarwel)***

***Neges: dylai oedolion fod yn dyner gyda'r plant maen nhw'n gofalu amdanyn nhw er mwyn i blant deimlo'n ddiogel ac yn hapus pan fyddan nhw gartref.***

## Naratif 2 (4 i 7 yw’r oedran a awgrymir)

*Yn y stori hon, gallai Sam fod yn byped, yn degan neu’n llun ar y sgrin.*

Helo bawb! A oes unrhyw un yn gwybod pwy ydy o? [Dangos llun]

Prif Weinidog Cymru. Mae’n gyfrifol am wneud penderfyniadau dros bawb yng Nghymru. Mae am i blant fod yn hapus ac yn ddiogel pan fyddant gartref ac am i oedolion ofalu am blant.  Mae gan bob un ohonoch yr hawl hon.

Dywedwch helo wrth y Prif Weinidog!

***(Dangoswch lun o dŷ)***

Pwy sy’n gofalu amdanoch chi gartref? (Gofynnwch am awgrymiadau, anogwch y plant i weld y pethau sy’n debyg ac yn wahanol rhyngddynt)

Da! Mae gan bob un ohonoch chi deuluoedd gwahanol gartref. Ond mae gan bob un ohonoch chi oedolion sy’n gofalu amdanoch chi. Felly, dywed Prif Weinidog fod oedolion yn gwneud yn siŵr bod plant yn teimlo’n ddiogel pan fyddant gartref.

Mae’n dweud na ddylai oedolion gyffwrdd y plant maen nhw’n gofalu amdanyn nhw mewn ffordd sy’n eu brifo.

*A ydyn ni’n meddwl bod hyn yn syniad da? Beth ydyn ni’n feddwl mae hynny yn ei olygu?*

Da! Mae’n bwysig bod pawb yn ddiogel. Mae Prif Weinidog wedi dod â ffrind gydag ef. Ei enw yw Sam. Dywedwch helo wrth Sam ***(canwch gân helo)***

Mae Sam yn flin *(meimwch Sam yn bod yn flin, dangoswch lun o wyneb blin). Dangoswch imi sut mae blin yn edrych. Beth sy'n eich gwneud chi'n flin? Beth ydych chi’n feddwl sydd wedi digwydd i Sam?*

Mae Sam yn bod yn ddiofal. Beth sy’n mynd i ddigwydd? O na! Mae Sam wedi torri plât! (Meimiwch sŵn malu) Mae Sam gartref. *Pwy ydyn ni’n meddwl sydd gydag ef? Am beth wnaethon ni siarad yn gynharach?*

Mae (ailadroddwch syniadau’r plant e.e. mam, dad ac ati) wedi’i weld! *Beth ydyn ni’n feddwl sydd wedi digwydd?)*

Maen nhw'n clirio'r llanast ac yn helpu Sam i anadlu'n ddwfn. Gadewch i ni i gyd anadlu'n ddwfn gyda'n gilydd. ***(Ymarferwch anadlu'n ddwfn)***

Sut ydych chi'n teimlo nawr eich bod wedi bod yn anadlu'n ddwfn? ***(Gwrandewch ar syniadau'r plant)***

Mae'r [oedolyn] yn teimlo'n dawel hefyd ac yn amyneddgar gyda Sam.

Mae Sam yn teimlo'n well nawr. Mae'r [oedolyn] yn ddiogel ac yn gofalu amdano. Dydyn nhw ddim yn ei frifo.

Gadewch i ni ganu i ffarwelio â Sam ***(Canwch gân ffarwel)***

***Neges: dylai oedolion fod yn dyner gyda'r plant maen nhw'n gofalu amdanyn nhw er mwyn i blant deimlo'n ddiogel ac yn hapus pan fyddan nhw gartref***



# Plant yng Nghymru

Plant yng Nghymru yw'r corff ymbarel cenedlaethol ar gyfer mudiadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Roedd y gwaith a wnaed gan Plant yng Nghymru ar y prosiect hwn yn cyd-fynd â Cymru Ifanc, sef cynllun gan Plant yng Nghymru sy'n ehangu ac yn cefnogi lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru i gael eu clywed, i gael gwrandawiad ac i gael dylanwad mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; mae'n seiliedig ar CCUHP a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc. Cafodd y gwirfoddolwyr hŷn a gymerodd ran yn y prosiect hwn eu recriwtio drwy Cymru Ifanc.

Os hoffech chi roi adborth i ni ar y ddogfen ganllaw hon a'r adnoddau y mae'n cyfeirio atynt, llenwch yr arolwg hwn: https://forms.office.com/e/WaQShsgeYY.

Os ydych chi'n teimlo bod angen mwy o gefnogaeth arnoch, mae hyfforddiant ar gael drwy Plant yng Nghymru; https://www.childreninwales.org.uk/cy/.

Mae gan Cymru Ifanc, lu o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddweud eu dweud ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Os ydych chi'n gwybod am unrhyw blant a phobl ifanc a fyddai o bosib yn hoffi cymryd rhan, cyfeiriwch nhw at ein gwefan - https://www.childreninwales.org.uk/jobs/young-volunteers-recruiting-now.

Plant yng Nghymru sydd hefyd yn goruchwylio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol; gall mudiadau ymgeisio am y safonau hyn i ddangos eu hymroddiad i gyfranogiad y plant a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.childreninwales.org.uk/cy/plant_a_phobl_ifanc/cymru_ifanc/ein_gwaith/safon-cyfranogiad-cenedlaethol/



# Rhestr adnoddau

Adnoddau i'ch helpu i gyfathrebu'n gyffredinol ar hawliau plant

| Llywodraeth Cymru | |
|---|---|
| https://www.llyw.cymru/hawliau-plant-yng-nghymru | Gwybodaeth gyffredinol am hawliau plant yng Nghymru |
| https://www.llyw.cymru/safonau-cyfranogiad-cenedlaethol-plant-phobl-ifanc | Set o safonau ar gyfer sicrhau arfer da wrth wneud gwaith cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Plant yng Nghymru ac edrychwch ar ein gwefan https://www.childreninwales.org.uk/cy/ |
| https://hwb.gov.wales/repository/resource/17c5971b-68d4-4b50-b164-3d57584d9db5/en/overview | **Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chonsortia addysg a phartneriaethau rhanbarthol, gyda chymorth Comisiynydd Plant Cymru, i greu pecyn dysgu proffesiynol ar-lein ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA). Bydd yr adnodd dysgu proffesiynol cenedlaethol hwn yn helpu ymarferwyr, penaethiaid, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i ddatblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CCUHP a CCUHPA.** |
| **UNICEF** | |
| https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/ | Esboniad o CCUHP |
| https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/ | Ysgolion sy'n Parchu Hawliau |
| https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/resources/teaching-resources/guidance-assemblies-lessons/ | Amrywiol adnoddau am ddim, yn benodol "Erthygl yr Wythnos" |

| Children’s Commissioner for Wales | |
|---|---|
| https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/ | Tudalen lanio ar gyfer yr holl adnoddau |
| https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant-2/ | Integreiddio dull hawliau plant |
| https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/01/42-Articles-Welsh-A4-cards.pdf | Pecyn symbolau CCUHP |
| https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/04/CCfW-A2-Rights-Poster-CYMRAEG-AW-Rocio.pdf | Poster CCUHP sy’n addas i blant |
| https://www.youtube.com/watch?v=ScZ1CLsB_tQ&index=2&list=PLGsIZNczbJKhq3lfdkTMSbNlhtBzu5yrc | Erthyglau ar fersiwn Iaith Arwyddion Prydain o CCUHP |
| https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2023/03/Books-that-link-to-childrens-rights.pdf | Llyfrau sy’n cysylltu â hawliau plant, gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer cyfathrebu â’r blynyddoedd cynnar |
| https://www.complantcymru.org.uk/ein-gwaith/gobeithion-i-gymru/ | Stori sy’n egluro hawliau plant ac Uchelgais y Comisiynydd ar gyfer Cymru i blant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (2 i 7) |
| Mae cynlluniau gwersi a sesiynau ar gyfer amrywiol oedrannau (gyda fersiynau hygyrch) hefyd ar gael ar wefan y Comisiynydd | |
| **Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban** | |
| https://www.cypcs.org.uk/resources/lets-explore-our-rights/ | Esboniad syml o hawliau plant D.S. mae’r llyfr hwn wedi’i greu ar gyfer plant yn yr Alban, ac felly efallai y bydd yn rhaid addasu’r geiriad ar gyfer cynulleidfa Gymreig |
| https://www.cypcs.org.uk/get-help/teachers/ | Amrywiaeth o adnoddau ar CCUHP a sut i’w drafod gyda gwahanol grwpiau oedran |
| **Amnesty International** | |
| https://www.amnesty.org.uk/files/2021-09/Resource%20Catalogue%202021.pdf?VersionId=CjLW05.2OA0BRidHc.LBwwT21o7324mh | Mwy o adnoddau hawliau dynol cyffredinol ond gyda’r ystod oedran wedi’i nodi ar yr adnoddau. |

Adnoddau'n benodol ar gosbi corfforol

| Welsh Government | |
|---|---|
| https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2020/3 | Testun llawn Deddf Plant (Cymru) |
| https://www.llyw.cymru/stopio-cosbi-corfforol-i-blant | Adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o gefndiroedd a thaflenni gwybodaeth ar gyfer rhieni mewn amrywiol ieithoedd |
| **Menter Fyd-eang i Atal pob ffurf ar Gosbi Plant yn Gorfforol** | |
| Global Initiative to End All Corporal Punishment of Children (endcorporalpunishment.org) | Amrywiaeth o adnoddau a dolenni i ymchwil. Mae'r adnoddau isod yn enghreifftiau o'r hyn sydd ar gael ar y wefan. |
| **Achub y Plant** | |
| https://resourcecentre.savethechildren.net/pdf/faq-en-child-friendly-updated-2019.pdf/ | Ar gyfer plant hŷn – sesiwn Holi ac Ateb ar y prif faterion. |
| https://resourcecentre.savethechildren.net/pdf/faq-en-updated-2019.pdf/ | Cwestiynau cyffredin ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n codi ynglŷn â chosbi plant yn gorfforol, help gyda chyfathrebu'n gyffredinol a gall eich helpu i gyfathrebu â rhieni a gofalwyr |



## Adnoddau i helpu gyda diogelu

| Llywodraeth Cymru | |
|---|---|
| https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-04/grant-cymorth-rhianta-y-tu-allan-ir-llys.pdf | Arweiniad i'r Heddlu, Timau Troseddau Ieuenctid ac awdurdodau lleol |
| https://safeguarding.wales/en/chi-i/chi-i-c6/c6-p11/ | Gweithdrefnau diogelu mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru) 2020 |

## Adnoddau i helpu i ymgysylltu â phlant ag anghenion dysgu ychwanegol

| | |
|---|---|
| https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant-2/dull-gweithredu-ar-sail-hawliau-plant-tuag-at-anghenion-dysgu-ychwanegol/ | **Dull Hawliau Plant, yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc ag ADY** |
| https://learning.nspcc.org.uk/services/speak-out-stay-safe | **NSPCC: Rhaglen 'Cofia ddweud Cadwa'n ddiogel' – mae hon yn rhaglen sy'n addas ar gyfer disgyblion ag ADY.** |

## Rhaglenni perthnasol eraill

| | |
|---|---|
| https://schoolbeat.cymru/ | **School Beat / Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru** |
| https://learning.nspcc.org.uk/services/speak-out-stay-safe | **NSPCC: Rhaglen 'Cofia ddweud Cadwa'n ddiogel' gyda disgyblion ysgolion cynradd.** |
| https://senedd.cymru/ymweld-a-ni/addysg-ac-ymgysylltu-a-phobl-ifanc/ | **Senedd Cymru – yn helpu plant a phobl ifanc i ddysgu am Senedd Cymru drwy ymweliadau a/neu adnoddau sy'n cael eu harchwilio yma.** |

# Atodiad un: Gwybodaeth a ffurflenni caniatâd ar gyfer plant a phobl ifanc

*Efallai y penderfynwch ei bod yn briodol rhoi ffurflen ganiatâd i'r plant a'r bobl ifanc yn y sesiwn er mwyn iddyn nhw allu dewis cymryd rhan ai peidio. Bydd hyn yn arbennig o wir os ydych chi'n rhanddeiliad allanol a/neu'n cyd-gynhyrchu adnoddau. Rydym felly wedi darparu dwy fersiwn o'r ffurflen hon, un sy'n darparu'r wybodaeth ac un arall sydd â lle i'r bobl ifanc ei llofnodi i ddangos eu bod yn cydsynio i gymryd rhan yn y sesiwn.*

## Atodiad 1A: Taflen wybodaeth

**Mae'r rheolau ynglŷn â sut mae plant yn cael eu disgyblu yng Nghymru wedi newid.**

**Beth sydd dan sylw yma?**

Rydym yn dweud wrthych y byddwn yn cynnal sesiwn ac yn gwneud gweithgareddau ar Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Mae hon yn gyfraith yng Nghymru sy'n golygu bod cosbi plant yn gorfforol mewn unrhyw ffordd yng Nghymru yn anghyfreithlon.

**Beth yw cosb gorfforol?**

Mae cosbi plant yn gorfforol yn golygu pan fydd rhywun yn brifo plentyn yn gorfforol fel cosb. Mae hyn yn cynnwys pethau fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd, ond mae ffyrdd eraill hefyd. Mae cosbi plant yn gorfforol mewn unrhyw ffordd nawr yn anghyfreithlon yng Nghymru.

**Beth allaf ei wneud os wyf angen rhagor o wybodaeth?**

Os ydych chi eisiau siarad â rhywun am y sesiwn ymlaen llaw, rhowch wybod i ..................... a byddant yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

**Beth ddigwyddith os byddaf yn ypsetio?**

Os oes unrhyw beth rydyn ni'n siarad amdano yn y sesiwn yn gwneud i chi deimlo'n bryderus neu'n ofidus, yn ystod y sgwrs neu wedyn, gallwch siarad â .......................... Os nad ydych chi eisiau siarad â nhw, byddwn yn rhoi i bawb rifau ffôn a manylion gwefannau pobl eraill a all helpu.

## Atodiad 1b: Ffurflen ganiatâd

**Mae'r rheolau ynglŷn â sut mae plant yn cael eu disgyblu yng Nghymru wedi newid.**

**Beth sydd dan sylw yma?**

Rydym yn dweud wrthych y byddwn yn cynnal sesiwn ac yn gwneud gweithgareddau ar Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Mae hon yn gyfraith yng Nghymru sy'n golygu bod cosbi plant yn gorfforol mewn unrhyw ffordd yng Nghymru yn anghyfreithlon.

**Beth yw cosb gorfforol?**

Mae cosbi plant yn gorfforol yn golygu pan fydd rhywun yn brifo plentyn yn gorfforol fel cosb. Mae hyn yn cynnwys pethau fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd, ond mae ffyrdd eraill hefyd. Mae cosbi plant yn gorfforol mewn unrhyw ffordd nawr yn anghyfreithlon yng Nghymru.

**Beth allaf ei wneud os wyf angen rhagor o wybodaeth?**

Os ydych chi eisiau siarad â rhywun am y sesiwn ymlaen llaw, rhowch wybod i [enw] a byddant yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

**Beth ddigwyddith os byddaf yn ypsetio?**

Os oes unrhyw beth rydyn ni'n siarad amdano yn y sesiwn yn gwneud i chi deimlo'n bryderus neu'n ofidus, yn ystod y sgwrs neu wedyn, gallwch siarad â ......................... Os nad ydych chi eisiau siarad â nhw, byddwn yn rhoi i bawb rifau ffôn a manylion gwefannau pobl eraill a all helpu.

**Beth os nad ydw i eisiau cymryd rhan?**

Os nad ydych chi eisiau cymryd rhan, peidiwch â llofnodi'r ffurflen hon a byddwn yn ..........................................................................................

Os byddwch yn newid eich meddwl yn ystod y sesiwn a ddim eisiau cymryd rhan dim mwy, rhowch wybod i ............................................ a byddant yn mynd â chi o'r ystafell.

Llofnodwch, ysgrifennwch neu rhowch groes isod i ddweud eich bod am gymryd rhan.

**Llofnod, enw, neu groes** ______________________________________________

**Dyddiad** ____________________________

**Oedran** ____________________________

# Atodiad dau: Ffurflen optio allan i rieni/gofalwyr

*Efallai y byddwch yn penderfynu y byddech yn hoffi rhoi ffurflen ganiatâd i rieni/gofalwyr y bobl ifanc yn y sesiwn, yn enwedig os ydych yn bwriadu cyd-gynhyrchu adnoddau a/neu os ydych yn hwylusydd allanol. Isod ceir enghraifft o ffurflen y gallwch ei haddasu ar gyfer eich lleoliad. Efallai y byddai'n fwy priodol i chi ddweud wrth rieni y byddwch yn cynnal y sesiwn, heb roi'r dewis iddynt optio allan.*

## FFURFLEN OPTIO ALLAN I RIENI/GOFALWYR

## Llenwch y ffurflen hon os NAD ydych am i'ch plentyn fod yn rhan o sesiwn Deddf Plant (Cymru) 2020

**Beth sydd dan sylw yma?**

Mae nawr yn anghyfreithlon cosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Ym mis Ionawr 2020, cafodd Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf") ei phasio yn y Senedd. Y nod cyffredinol oedd helpu i amddiffyn hawliau plant a rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru. Byddwn yn siarad am y ddeddfwriaeth hon gyda'r plant yn nosbarth eich plentyn.

**Beth yw cosb gorfforol?**

Diffinnir cosb gorfforol fel unrhyw ffordd o guro plentyn fel cosb. Er mai 'smacio' sy'n dod i'r meddwl fel arfer, gall cosb gorfforol fod ar sawl ffurf fel taro, slapio ac ysgwyd. Mae'r gyfraith newydd hon yn golygu na all neb gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru, gan gynnwys yn y cartref, felly fe roddir i blant yr un warchodaeth gyfreithiol rhag ymosodiadau ag oedolion.

Ni fydd Deddf Plant (Cymru) yn atal rhieni rhag disgyblu eu plant – mae gwahaniaeth mawr rhwng disgyblu a chosbi corfforol. Gall rhieni ddefnyddio dulliau eraill yn lle cosbi corfforol fel ffordd o gadw disgyblaeth a delio ag ymddygiad gwael. Ni fydd ychwaith yn amharu ar allu rhieni i fagu eu plant - gall rhieni wrth gwrs ymyrryd yn gorfforol i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed neu i'w helpu gyda gweithgareddau dydd i ddydd fel gwisgo neu lanweithdra a chadw'n lân.

**Beth ddigwyddith os bydd fy mhlentyn yn ypsetio?**

Byddwn yn cael gweithgareddau hwyliog ac yn siarad am sut i gyfleu'r newidiadau am y gyfraith, felly mae'n annhebygol y byddai bod yn y grŵp yn ypsetio eich plentyn. Os oes unrhyw beth rydyn ni'n siarad amdano yn gwneud i'ch plentyn boeni neu ofidio, yn ystod y sgwrs neu wedyn fe allant siarad â ............ Os nad ydyn nhw eisiau siarad â nhw, bydd pob plentyn yn cael rhifau ffôn a manylion gwefannau sefydliadau cymorth, fel Childline.

Llofnodwch a dychwelwch y ffurflen hon os **NAD YDYCH** am i’ch plentyn gymryd rhan yn y grŵp.

Rwyf wedi darllen a deall y wybodaeth ar y ffurflen hon, ac **nid wyf** am i fy mhlentyn gymryd rhan yn y grŵp hwn.

**Llofnod**______________________________________________________

**Enw**__________________________________________________________

**Enw’r plentyn**_________________________________________________

**Perthynas â’r plentyn** _____________________________________________

**Dyddiad** __________________________________

# Atodiad tri: Ffurflenni adborth ar gyfer plant a phobl ifanc

**Ffurflen Adborth ar gyfer Prosiect y Ddeddf Plant**

**Sut ydych chi’n teimlo am y sesiynau rydych chi wedi’u cwblhau ar Ddeddf Plant (Cymru) 2020? Atebwch drwy liwio’r emoji.**



| Beth ydych wedi'i fwynhau? | Beth fyddai wedi gwneud y sesiynau yn well? | Unrhyw sylwadau eraill? |
|---|---|---|
| | | |

# Atodiad pedwar: Rhifau ffôn llinellau cymorth a gwefannau ar gyfer plant a phobl ifanc

Efallai y byddai'n ddefnyddiol siarad â'r plant a'r bobl ifanc yn eich sesiwn am ble gallan nhw fynd i gael cymorth os ydyn nhw'n poeni, yn enwedig plant hŷn. Isod fe welwch boster y mae Plant yng Nghymru yn aml yn ei ddosbarthu i'r plant a'r bobl ifanc rydym yn gweithio gyda nhw, fel eu bod yn gwybod sut i gael help. Gallwch ei ddefnyddio neu ei addasu i gyd-fynd ag anghenion y plant yn y sesiwn.

| Rhifau a gwefannau defnyddiol |
|---|
| **A hoffech gael rhagor o wybodaeth neu gymorth?** |
| Dyma rai rhifau ffôn a gwefannau y gallwch fynd iddynt os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Plant yng Nghymru, neu hawliau plant, neu os ydych yn teimlo'n ofidus am yr hyn yr ydym wedi'i drafod, neu os oes unrhyw beth arall yn eich cynhyrfu |
| **Plant yng Nghymru** |
| Mae Plant yng Nghymru yn gweithio i bob plentyn yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, ac rydym hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc ein hunain trwy Cymru Ifanc. Rydym yn gwrando ar blant a phobl ifanc ac yn rhoi llais iddynt am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Ein gwefan yw www.childreninwales.org.uk/cy |
| **Childline** |
| Gallwch gysylltu â Childline am unrhyw beth. Beth bynnag fo'ch pryder, mae yma i'ch cefnogi chi. Mae llawer o wahanol ffyrdd o siarad â chynghorydd Childline neu gael cymorth gan bobl ifanc eraill. Ewch i'r wefan am fwy o wybodaeth: www.childline.org.uk neu ffoniwch 0800 11 11 |
| **Meic** |
| Meic yw'r llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. O ddarganfod beth sy'n digwydd yn eich ardal leol i helpu i ddelio â sefyllfa anodd, bydd Meic yn gwrando hyd yn oed pan na fydd neb arall yn gwneud hynny. Ni fyddwn yn eich barnu a byddwn yn helpu drwy roi gwybodaeth, cyngor defnyddiol, a'r cymorth sydd ei angen arnoch i wneud newid. Gwefan: meiccymru.org/cym/ Rhif ffôn: 080980 23456 Testun: 84001 |
| **Comisiynydd Plant Cymru** |
| Gwaith y Comisiynydd Plant yw dweud wrth bobl pam mae **hawliau plant** mor bwysig, ac edrych ar sut mae'r penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn effeithio ar hawliau plant. Mae ganddi dîm o bobl sy'n gweithio gyda hi i wneud i hyn ddigwydd. Ei gwefan yw: complantcymru.org.uk |